**ADRODDIAD I'R CABINET**
**19 CHWEFROR 2013**

| | |
|---|---|
| **Aelod Cabinet:** | **Cynghorydd W Gareth Roberts** |
| **Pwnc:** | **Gorchymyn Rheoli Cŵn** |
| **Swyddog cyswllt:** | **Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio** |

---

**Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad**

1. Bod y Cyngor yn mabwysiadu Gorchymyn Rheoli Cŵn ar gyfer Gwynedd ar sail y drafft a gyflwynir yn Atodiad 4. Gwneir hyn gan ei fod yn gam angenrheidiol a chymesur i ymateb i'r problemau a achosir gan gŵn ac i gyfarch dyheadau trigolion Gwynedd o ran cael y Cyngor i arwain ar ymateb i'r mater yma.
2. Bod lefel dirwyon ar gyfer y troseddau sydd wedi eu cynnwys yn y Gorchymyn yn cael eu gosod ar £100 y drosedd ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf gyda disgownt i £60 os telir y ddirwy o fewn 10 diwrnod.
3. Dirprwyo'r hawl i wneud man addasiadau ffiniau'r parthau gwahardd cŵn ac i eiriad y dogfennau sydd yn gysylltiedig â sefydlu'r Gorchymyn Rheoli Cŵn, Pennaeth yr Adran Rheoleiddio mewn ymgynghoriad a Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol a'r Aelod Cabinet Amgylchedd er hwyluso'r broses o sefydlu'r gorchymyn.

---

**Barn yr aelod lleol**

Dim yn fater lleol.

---

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae'r is ddeddfwriaeth gyfredol sydd yn ei le yng Ngwynedd ar gyfer rheoli cŵn yn seiliedig ar Ddeddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996. Mae'r ddeddf hon eisoes wedi ei ddiddymu ac er bod y ddeddfwriaeth leol sydd wedi ei seilio arni yn dal yn weithredol, mae ei sgôp a'r lefel dirywion wedi eu gosod o dan yr hen ddeddfwriaeth, felly ni all y Cyngor eu newid heb baratoi a mabwysiadu gorchmynion o'r newydd.

1.2 Mae'r pwerau sydd yn ymwneud a gwahardd cŵn ar draethau yng Ngwynedd yn anghyson ac angen eu hadolygu er mwyn i'r swyddogion gweithredol gael pwerau effeithiol i blismona yr ardal yn gyson ac yn ei chyfanrwydd. Mae gwendidau yr agwedd hon yn cael ei fynegi fel pryder yn rheolaidd gan gynghorau tref a chymuned a thrigolion lleol.

1.3 Nid oes unrhyw bwerau cyfredol yng Ngwynedd i wahardd cŵn rhag mynd ar diroedd lle mae cyfleusterau plant ym mherchnogaeth y Cyngor, megis 129 o gaeau chwarae, 26 safle hamdden na'r holl diroedd ysgolion. Yn ychwanegol, mae'r Cynghorau Cymuned/Tref, Cartrefi Cymunedol Gwynedd a chyrff allanol eraill yn berchen ar nifer fawr o gyfleusterau plant a thiroedd hamdden ac mae pryderon rheolaidd yn cael eu mynegi mewn perthynas â phlismona yr ardaloedd yma o ran rheoli cŵn.

**Cyfeiriad a Awgrymir**

1.4 Yn dilyn y gwaith casglu gwybodaeth am natur y problemau a wynebir yng Ngwynedd a'r gwaith o ddadansoddi yr ymatebion a dderbyniwyd drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus, argymhellir bod y Cyngor yn mabwysiadu Gorchymyn Rheoli Cŵn ar gyfer Gwynedd ar y sail ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur i ymateb i'r problemau a achosir gan gŵn ac i ddyheadau trigolion Gwynedd o ran gael y Cyngor i arwain ar ymateb i'r mater yma.

1.5 Mae Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cŵn Darpariaethau Amrywiol Cymru 2007 yn darparu ar gyfer 5 trosedd y gellir eu sefydlu o fewn gorchymyn rheoli cŵn

a) peidio a chlirio neu godi baw ci;
b) peidio a chadw ci ar dennyn;
c) peidio rhoi a chadw chi ar dennyn pan ofynnir i'r person wneud hynny gan swyddog awdurdodedig;
ch) gadael i gi fynd ar dir lle mae cŵn wedi eu gwahardd;
d) mynd a mwy na'r nifer o gŵn a ganiateir ar dir.

1.6 Argymhellir bod Cyngor Gwynedd yn mabwysiadu gorchymyn yn ymdrin â troseddau a), c) a ch) o'r rhestr uchod.

1.7 Byddai y Gorchymyn i'w fabwysiadu yn darparu ar gyfer gwahardd cŵn o diroedd hamdden, caeau chwarae plant a thiroedd ysgolion yn y Sir.

1.8 Byddai y Gorchymyn yn darparu ar gyfer gwahardd cŵn o barthau ar draethau penodol am y cyfnod 1 Ebrill - 30 Medi yn flynyddol.

1.9 Ni fydd y Cyngor yn sefydlu parthau gwahardd cŵn o'r newydd ar draeth Penllech nac ar draeth Borth y Gest.

1.10 Argymhellir bod ffiniau parth gwahardd cŵn traeth Aberdaron yn cael ei addasu a'i seilio ar yr ardal lle gwaharddwyd cŵn yn ymarferol dros y blynyddoedd diwethaf.

1.11 Argymhellir cod lefel dirwyon ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf yn cael eu gosod ar £100 y drosedd gyda disgownt i £60 os telir y ddirwy o fewn 10 diwrnod.

1.12 I hwyluso'r broses o sefydlu'r gorchymyn, argymhellir dirprwyo'r hawl i wneud man addasiadau ffiniau'r parthau gwahardd cŵn ac i eiriad y dogfennau sydd yn gysylltiedig â sefydlu'r Gorchymyn Rheoli Cŵn, Pennaeth yr Adran Rheoleiddio mewn ymgynghoriad a Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar Aelod Cabinet Amgylchedd

1.13 Wrth eu cyflwyno, bydd y gorchymyn rheoli cŵn hyn yn disodli system flaenorol yr is-ddeddfau rheoli cŵn a Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996. Byddai gorchymyn sy'n ymateb i a) ac c) yn berthnasol i'r holl dir sy'n gorwedd o fewn ardal weinyddol y Cyngor sydd yn agored i'r awyr a ble mae gan y cyhoedd hawl mynediad iddo. Byddai gorchymyn sy'n berthnasol i ch) yn berthnasol i diroedd penodol gaiff eu nodi yn y gorchymyn ffurfiol.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

1.14 Dengys canlyniadau arolwg amgylchedd Panel Trigolion Gwynedd mai baw cŵn yw'r pryder mwyaf o'r holl broblemau amgylcheddol yng nghymunedau Gwynedd. Gwelwyd cefnogaeth gryf iawn i ddirwyo pobl sy'n gadael i'w cŵn faeddu mewn mannau cyhoeddus. Mae tystiolaeth bellach o'r ymgynghoriad ar Orchmynion Rheoli Cŵn yn ategu'r dadleuon iechyd cyhoeddus ac o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gyda'I gilydd, ystyrir bod tystiolaeth ddigonol ar gyfer cyfiawnhau mabwysiadu Gorchymyn Rheoli Cŵn yng Ngwynedd.

1.15 O ran peidio a chlirio neu godi baw ci, byddai mabwysiadau Gorchymyn newydd yn rhoi'r gallu i'r Cyngor orfodi'r drosedd ar yr holl dir agored o fewn ardal weinyddol y Cyngor ble mae gan y cyhoedd hawl mynediad. Mantais hyn fydd rhoi'r gallu i'r Cyngor i dargedu lleoliadau trafferthus sydd ar hyn o bryd tu allan i sgôp y pwerau presennol. Fodd bynnag, rhaid cadw mewn cof gan fod y rhan fwyaf o broblemau yn parhau i ddigwydd mewn ardaloedd poblog, a bydd adnoddau gorfodaeth yn gorfod cael eu targedu yn gymesur.

1.16 Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cadarnhau bod barn y cyhoedd yn cyd-fynd a'r dystiolaeth sydd gan y Cyngor ynglŷn â'r angen i wahardd cŵn o fannau chwarae plant, o diroedd sefydliadau addysgol ac o diroedd hamdden yng Ngorchymyn Rheoli Cŵn Gwynedd.

1.17 Mae profiad diweddar yn cadarnhau bod nifer o berchnogion anghyfrifol yn defnyddio caeau chwarae plant, tiroedd ysgolion a thiroedd hamdden fel toiledau cŵn yn ddyddiol. Byddai gorchymyn o'r newydd yn hwyluso ymdrech y Cyngor I orfodi yn effeithiol ac i ymdrechu i leihau risgiau iechyd y cyhoedd ac yn y pendraw i geisio cyflawni'r nod o newid ymddygiad ymysg y canran isel o berchnogion cŵn sydd yn cyfrannu at y broblem yn y lle cyntaf.

1.18 Buasai gorchymyn newydd hefyd yn creu cyfleon i ddirprwyo neu ddatganoli pwerau gorfodaeth i gyrff allanol, Cynghorau Cymuned/Tref fel y gallant wneud cyfraniad uniongyrchol at ymdrin ar broblem lle mae hynny yn briodol. Yn ogystal, mae'r hawliau newydd yn galluogi awdurdodau i wneud defnydd o wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r gwaith.

1.19 Mae'r buddiannau a ddeillia o weithredu gorchymyn rheoli cŵn ar draws Gwynedd fel a ganlyn:

- a) Cyfle i newid is-ddeddfau cyfredol sydd yn ymwneud a materion rheoli cŵn yn llwyr ledled Gwynedd ac i gyflwyno rheolau newydd a ddarparir yn y Ddeddf Cymdogaethau Glan ar Amgylchedd 2005.
- b) Cyfle i ymestyn nifer o'r ardaloedd lle gellir cymhwyso deddfwriaeth gorfodaeth cŵn.
- c) Dylai'r cyhoeddusrwydd fydd yn cael ei greu drwy gyflwyno gorchmynion rheoli cŵn yn anfon neges glir ir perchnogion cŵn ynghylch yr hyn sydd ac nad yw yn oddefol yng nghyswllt ymddygiad.
- ch) Mannau ymdrochi mwy diogel a glan ar rhai o draethau
- d) Strydoedd glan
- dd) Hyrwyddo ymddygiad cyfrifol gan berchnogion cŵn

e) Cyfle i wahardd cŵn o gyfleusterau plant megis caeau chwarae a hamdden.

f) Yr hyblygrwydd i adolygu lefelau dirwyon sydd ar hyn o bryd yn osodedig o dan is-ddeddfwriaeth.

1.20 Byddai mabwysiadu Gorchymyn Rheoli Cŵn yng nghyd a gorfodi ar ei sail yn cael ei gydblethu gyda ymdrechion addysgu a chodi ymwybyddiaeth wrth geisio newid ymddygiad y perchnogion cŵn hynny sydd yn ymddwyn yn anghyfrifol. Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried bod cael balans rhwng yr elfennau yma yn allweddol os yw'r ymdrechion i gyflawni yr amcan am lwyddo. Ystyrir bod technegau cyfathrebu modern yn cynnwys gwefannau cymdeithasol yn allweddol i gyflawni hyn yn effeithiol.

**Ystyriaethau perthnasol**

1.21 Yn yr ymgynghoriad, mae Cyngor Gwynedd wedi datgan yn glir nad yw yn bwriadu dynodi ardaloedd lle byddai yn orfodol i gŵn fod ar dennyn. Fodd bynnag, credir bod cyfiawnhad i sefydlu pwerau cyfarwyddo perchnogion i gadw cŵn ar dennyn yn y Gorchymyn Rheoli Cŵn yng Ngwynedd. Yn yr ymgynghoriad mae mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r bwriad yma ac mae'r Kennel Club (Atodiad 1), yn canmol y Cyngor am gymeryd agweddau ymarferol tuag at sicrhau bod cŵn dan reolaeth.

1.22 Mae'r cyfan o'r ardaloedd gwahardd cŵn ar draethau, ar wahân i gynigion ar gyfer Traeth Penllech a thraeth Borth y Gest, wedi ei seilio ar ardaloedd gwahardd sy'n bodoli eisoes dan Ddeddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996. Mae man addasiadau wedi eu gwneud i rai o'r ffiniau er hwyluso rheolaeth ymarferol a gorfodi effeithiol yn enwedig o ran eglurder o'r gwaharddiadau i'r cyhoedd, mynediad i'r ac o'r traethau i berchnogion cŵn a sicrhau nad oes effaith sylweddol ar ddefnyddwyr Llwybr yr Arfordir.

1.23 Credir bod cyfiawnhad i sefydlu parthau gwahardd cŵn ar draethau a hynny wedi ei seilio ar y gwaharddiadau sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, dengys yr ymgynghoriad nad oes cefnogaeth gyhoeddus i sefydlu parthau gwahardd cŵn o'r newydd yn Traeth Penllech nac ar Draeth Borth y Gest. Yn absenoldeb y gefnogaeth yma, ni ystyrir bod digon o gyfiawnhad i sefydlu parthau gwahardd o'r newydd ar Draeth Penllech nac ar Draeth Borth y Gest.

1.24 Elfen arall gafodd sylw yn yr ymgynghoriad oedd cynigion y Cyngor i gysoni cyfnod gwahardd cŵn ar draethau ar draws y Sir gyfan i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill hyd at 30 Medi yn flynyddol. Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn gefnogol i hyn. Mae'r diwydiant twristiaeth yn bwysig iawn i economi Gwynedd gyda prif ffocws y tymor o fewn y cyfnod o wyliau'r Pasg hyd at diwedd mis Medi. Credir bod cysoni cyfnod y gwaharddiadau ar draethau yn cynnig eglurder i ymwelwyr a'r ardal ac yn cyd-fynd a'r cyfnod y mae trigolion ac ymwelwyr, teuluoedd yn bennaf, yn defnyddio traethau i bwrpas hamddena. Mae sefydlu cyfnod cyson rhwng 1 Ebrill hyd at 30 Medi yn flynyddol yn cynnig sicrwydd i ddefnyddwyr y traethau o ran y gwaharddiadau ac yn neges glir bod ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod y rhannau hynny o'r traeth sy'n destun gwaharddiad yn cynnig amgylchedd lan ac iach iddynt.

1.25 Derbyniwyd rhai ymatebion o Tywyn yn nodi dymuniad i ymestyn cyfnod gweithredu'r parth gwahardd cŵn i fod yn waharddiad parhaol am y flwyddyn gyfan yn hytrach nag am y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi pob blwyddyn. Ni dderbyniwyd ymatebion yn cefnogi gwaharddiad parhaol o unrhyw ardal arall.

1.26 Byddai ymdrin â Tywyn mewn modd gwahanol yn colli'r cysondeb sirol er, cydnabyddir y gallai hyn fod yn cynnig cyfle i ddysgu o opsiwn gweithredu gwahanol a chefnogi dymuniad a fynegwyd yn lleol. Mae sylwadau'r Kennel Club (Atodiad 1) yn cyfeirio yn benodol at gyfnod y gwaharddiadau. Maent yn codi cwestiwn sylfaenol os yw cynigion y Cyngor am y cyfnod o 1 Ebrill i 30 Medi yn angenrheidiol a chymesur, heb son am waharddiadau parhaol.

1.27 Un mater penodol godwyd yn ystod yr ymgynghoriad oedd ffiniau arfaethedig parth gwahardd cŵn ar draeth Aberdaron. Yn yr ail ymgynghoriad, derbyniwyd nifer o sylwadau yn cefnogi gosod ffiniau'r parthau gwahardd ar Draeth Aberdaron ar sail beth mae Gwynedd wedi bod yn ei orfodi dros y blynyddoedd diwethaf, yn hytrach nag ar sail y ffiniau sydd yn y gorchymyn gwreiddiol. Credir bod sail gref i ffurfioli yr addasiad yma yn y Gorchymyn newydd.

1.28 Un o'r rhesymau y cynhaliwyd yr ymgynghoriad estynedig yn benodol i ymdrin â thraethau oedd bod ymatebion cryf wedi eu derbyn mewn perthynas â ardaloedd gwahardd cŵn yn ardal Abersoch. Nodwyd bod gwybodaeth benodol wedi ei dderbyn gan lawer o'r rhai ymatebodd yn negyddol i'r cynigion gwreiddiol eu bod yn fodlon gyda'r cynigion diwygiedig a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad estynedig mewn perthynas ac Ardal Abersoch.

**Ymateb Angenrheidiol a Chymesur**

1.29 Mae'r canllawiau yn nodi bod rhaid i awdurdod sydd yn ystyried mabwysiadu Gorchymyn Rheoli Cŵn ddangos bod hyn yn ymateb angenrheidiol a chymesur i'r problemau a achosir gan gŵn ar rhai sydd â chyfrifoldeb drostynt.

1.30 Rhaid i'r awdurdod geisio cysoni diddordeb perchnogion cŵn a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan weithgareddau cŵn gan nodi angen pobl, yn enwedig plant i gael mynediad i ardaloedd lle na chaniateir cŵn ac ardaloedd lle cedwir cŵn dan reolaeth ac anghenion pobl sydd yn rheoli cŵn i gael mynediad i dir lle gall eu cŵn gael ymarfer heb gyfyngiadau gormodol.

1.31 Yn ogystal, rhaid i awdurdodau ystyried pa mor effeithiol y gellir gorfodi Gorchymyn Rheoli Cŵn gan y gall methiant i orfodi yn briodol danseilio effaith y gorchymyn. Mae hyn yn hynod berthnasol gyda gorchmynion i eithrio cŵn yn gyfan gwbl o diroedd penodol. Bydd yn haws gorfodi rhain os yw'r tir yn gaeedig. Fodd bynnag, ni ddylid peidio cynnwys tiroedd heb eu cau mewn gorchymyn os gellir gwneud achos penodol iddynt er enghraifft, parthau eithrio cŵn ar draethau.

1.32 Credir bod sylwadau penodol y "Kennel Club (Atodiad 1) wedi eu paratoi yng nghyd-destun meini prawf y canllawiau. Tynnir sylw yr aelodau at y sylwadau yma wrth ystyried os yw ymateb y Cyngor yn angenrheidiol a chymesur.

1.33 Ar sail yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ynghyd a'r wybodaeth ehangach sydd ar gael i'r Cyngor, yn cynnwys dadleuon iechyd cyhoeddus ac o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, credir bod tystiolaeth a chyfiawnhad digonol i sefydlu Gorchymyn Rheoli Cŵn yng Ngwynedd a bod hyn a gynigir gan y Cyngor yn ymateb angenrheidiol a chymesur i'r materion yma yng Ngwynedd.

**DIRWYON**

1.34 Mae lefel dirwyon presennol y Cyngor dan Ddeddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996 yn sefydlog ar yr uchafswm yng Nghymru sef £75 ac os yw achos yn mynd i'r Llys mae'r ddirwy uchafswm yn £1,000.

1.35 Dan Deddf Cymdogaeth Glan a'r Amgylchedd 2005 gellir sefydlu'r ddirwy rhwng £75 a £150. Mae'r rheoliadau yn caniatáu "disgownt" os ydi'r swm llai yn cael ei dalu cyn diwedd cyfnod a bennir gan yr awdurdod e.e. 10 diwrnod. £50 ydi isafswm y ddirwy y gellid ei rhoi wedi disgownt. Os yw achos yn mynd i'r Llys byddai uchafswm y ddirwy yn parhau yn £1,000.

1.36 Mae nifer o opsiynau ar gael i'r Cyngor o fewn canllawiau'r Ddeddf. Rhaid cofio nad yw pawb yn talu eu dirwy ac y gallai'r canran yma gynyddu os ydi'r ddirwy yn uchel iawn. Rhaid i'r ddirwy fod yn ddigon o ysgogiad i ymddwyn mewn modd cyfrifol.

1.37 Ar sail y wybodaeth sydd i law, ac i geisio taro'r balans rhwng dirwy sy'n annog ymddygiad cyfrifol a chael pobl i dalu unrhyw ddirwyon, argymhellir bod y dirwyon ar gyfer y ddwy flwyddyn gyntaf yn cael eu gosod ar £100 gyda disgownt i £60 os telir y ddirwy o fewn 10 diwrnod. Bydd uchafswm dirwy Llys yn aros yn £1,000.

**CYFFREDINOL**

1.38 Bydd angen dirprwyo yr hawl i wneud man addasiadau i ffiniau'r parthau gwahardd cŵn ac i eiriad y dogfennau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Gorchymyn Rheoli Cŵn i Bennaeth yr Adran Rheoleiddio mewn ymgynghoriad a Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol a'r Aelod Cabinet Amgylchedd er hwyluso'r broses o sefydlu'r Gorchymyn.

**Camau nesaf ac amserlen**

1.39 Os bydd y Cabinet yn penderfynu gweithredu ar sail yr argymhelliad, bydd yr adrannau perthnasol yn cydweithio i geisio cael y gorchymyn yn ei le erbyn 1 Ebrill 2013 a gweithredu/gorfodi ar sail y Gorchymyn wedi hynny. Bydd amserlen gytunedig ar gyfer gweithredu yn raddol gyda phwyslais ar ddefnyddio technegau traddodiadol a gwefannau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o'r amserlen.

1.40 O ran ymarferoldeb y gorchymyn rhagwelir y bydd elfennau cŵn yn baeddu a pharthau gwahardd cŵn ar draethau yn cael eu gweithredu o 1 Ebrill 2013, gyda'r elfennau eraill megis gwaharddiadau tiroedd ysgol, caeau chwarae a thiroedd hamdden yn cael eu gweithredu gam wrth gam dros y 6 mis dilynol.

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:** Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad

**Y Swyddog Monitro:** *"Mae'r adroddiad yma yn dilyn proses drylwyr o ymgynghori a thrafod ac rwy'n fodlon ynglŷn â phriodoldeb yr hyn a argymhellir".*

**Y Pennaeth Cyllid:** *Cadarnhaf penderfyniad y Cabinet 24/07/2012 i glustnodi £57,000 y flwyddyn o gyllideb refeniw parhaol o gyllideb y Cynllun Tair Blynedd (Cynllun Strategol erbyn hyn) ar gyfer gwireddu'r nod o fabwysiadu Gorchmynion Rheoli Cwn̂.*

---

**Atodiadau**

| | |
|---|---|
| **ATODIAD 1** | Sylwadau'r Kennel Club |
| **ATODIAD 2** | Crynodeb o Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus |
| **ATODIAD 3** | Rhestr o'r Traethau fydd yn Destun Parth Gwahardd Cŵn |
| **ATODIAD 4** | Drafft o'r Gorchymyn Rheoli Cŵn |

**ATODIAD 1 SYLWADAU Y KENNEL CLUB**

Gwynedd Council Dog Control Orders Consultation
Council Offices
Cibyn Industrial Estate
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2BF

18 December 2012

Dear Sir/Madam,

**Re: Dog Control Order Consultation on Beaches in Gwynedd**

The Kennel Club has concerns regarding the proposed dog control orders on the beaches in Gwynedd and I would like to outline the reasons for our concern below.

As I wrote in our last dog control order consultation response, I want to stress the intention of the Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005 which gives local authorities the powers to implement Orders only that are necessary and proportionate responses to problems caused by dogs. Defra's guidance on the Act states that: "It is important for any authority considering a dog control order to be able to show that this is a necessary and proportionate response to problems caused by the activities of dogs and those in charge of them and; Any authority needs to balance the interest of those in charge of dogs against the interests of those affected by the activities of dogs and that a failure to give consideration to these factors could make any subsequent dog control order vulnerable in the Courts."

We find the proposed extension of the exclusion zone from 1 April to 30 September as a means of ensuring consistency across the country very concerning. There is no indication that the extension is due to dog related issues. Instead the justification provided for extending the exclusion zone is for consistency which raises the issue of its validity and whether it is an appropriate response.

Under the Countryside and Rights of Way Act 2000 (CROW), access for walkers with dogs is conditional on dogs being kept on a short fixed lead for 5 months of the year, irrespective of whether the specific access land has ground nesting birds or other wildlife that could be harmed by off-lead dogs. The more balanced and proportionate approach adopted for the coastal margin means that coastal access will become even more vital for walkers with dogs, as it provides alternative areas for off-lead exercise at sensitive times for ground-nesting birds and livestock further inland. However, it is recognised that on some coastal areas there will also be ground nesting birds and other sensitive times, and the Kennel Club will support related restrictions where these are proportionate and evidence- based. If this was the case for certain beaches in Gwynedd, then the extension could be justified. However, an extension of the exclusion zone in order to ensure consistency would not be deemed as a "necessary and proportionate" response.

When considering introducing or extending exclusion zone areas, it is important to be mindful that if it is not done in a coordinated way, and based on sound evidence, it can often displace dog owners (eg from the coastal trail and spreading room) onto more sensitive areas for wildlife, farmers, etc. According to the Kennel Club's survey research into dog walking and coastal access, it was evident that if restrictions are increased, dog walking will be moved to other areas of land. Therefore, needless additional restrictions/extensions on the coast need to be resisted as this is very likely to displace walkers with dogs onto other sensitive areas. If additional restrictions/extensions are needed, to avoid increasing conflict elsewhere, the potential for displacement must be assessed and managed, with alternative access provided on a different section of equally accessible and attractive coastal land.

It is better to take a pragmatic approach to develop exclusions that are credible and well-managed, as they are far more likely to foster compliance, rather than promote what may be seen as the ideal (for some), most restrictive approach. A 'least restrictive approach' is preferred and restrictions should be determined on a case by case basis from an impartial and balanced examination of the facts and consideration of a variety of management options. In order to ensure compliance with any restrictions imposed, they need to always be proportionate and credible. It is also important to reinforce the importance of off-lead access on the coast which will help to prevent problems on other land.

Ultimately, any proposal to restrict or exclude access for dogs to public spaces should simultaneously establish dog friendly areas of open land within the same location; the accessibility of alternative routes already available and potential negative effects on government targets for health and reducing congestion.

The Kennel Club believes that coastal access for dogs and their owners is vitally important, especially given the large number of people who are legally obligated to exercise their dogs, combined with the numerous health, environmental, economic and social benefits that dog ownership brings to the public and society. Therefore, by taking a mutually respectful and considerate partnership approach to increasing coastal access, numerous deficiencies of current management and provision can be addressed through enhancing coastal access in this way, and then used as principles of good practice for access management elsewhere.

I hope you take these points into consideration and that you find the enclosed briefing of use. Please do not hesitate to contact me if you have any further questions.

Yours sincerely,

D. Delić

Denisa Delic
Public Affairs Officer

Peter J Simpson
Waste Management and Streetscene Service
Gwynedd Council
Cibyn Industrial Estate
Caernarfon
Gwynedd LL55 28F

27 September 2012

Dear Mr. Simpson,

**Re: Dog Control Order Consultation in Gwynedd**

Thank you for contacting us and making us aware of your dog control order consultation. As you may already know, the Kennel Club is the governing body of dogs in the United Kingdom amongst whose main objective is to promote in every way the general improvement of all dogs and encourage responsible dog ownership.

As part of its External Affairs activities the Kennel Club runs a dog owners group KC Dog, which was established to monitor and keep dog owners up to date about dog related issues, including dog control orders being introduced across the country.

We have some concerns regarding your three dog control order proposals, which include (1) Dog Fouling, (2) Dogs on Leads by Direction and (4) the Exclusion of Dogs. I have enclosed our briefing on Dog Control Orders for information; however, I would like to outline the reasons for our concern below.

Firstly, I would like to remind you of the intention of the Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005 to give local authorities the powers to implement Orders only that are <u>necessary and proportionate</u> responses to problems caused by dogs. Defra's guidance on the Act states that: "It is important for any authority considering a dog control order to be able to show that this is a necessary and proportionate response to problems caused by the activities of dogs and those in charge of them and; Any authority needs to balance the interest of those in charge of dogs against the interests of those affected by the activities of dogs and that a failure to give consideration to these factors could make any subsequent dog control order vulnerable in the Courts."

To turn to your specific proposals the Kennel Club does not normally oppose orders to exclude dogs from playgrounds, bowling greens or recreational facilities, as long as alternative provisions are made for dog walkers in the vicinity. Also, we would point out that children and dogs should be able to socialise together quite safely under adult supervision. However, in respect to sport pitches, we would ask that you consider whether or not these restrictions are absolutely necessary and whether, in the latter case, time-limited restrictions could be introduced to cover use of pitches for sporting purposes.

With regard to the 'Dogs on Lead by Direction' order proposed, we commend Gywnedd Council's proposal of implementing this order as this allows responsible dog owners to exercise their dogs off lead without restriction providing their dogs are under control, whilst allowing the local authority powers to restrict dogs not under control. Furthermore,

in order to help Gywnedd Council and your authorised officers with defining what an out of control dog is, we have provided our definition below:

"Given that a dog under control is one that will obey its owner on command, whether on the lead or off the lead, KC Dog considers an out of control dog to be one behaving in such a way that would cause personnel trained in dog behaviour to reasonably believe that there was a significant possibility that through the actions of the owner in not controlling the dog, it would cause damage, distress, or physical harm (accidental or otherwise) to people or other dogs".

We would also like to stress that the authorised officer enforcing the order must be properly trained in dog behaviour in order to determine whether restraint is necessary. We would also recommend that the authorised officer only be able to direct a person to put their dog on a lead if the dog is not under proper control. There is a danger that, through no fault of its own, a dog could be a 'nuisance' or 'annoyance' to another person who simply does not like dogs.

Ultimately, any proposal to restrict or exclude access for dogs to public spaces should simultaneously establish dog friendly areas of open land within the same location; the accessibility of alternative routes already available and potential negative effects on government targets for health and reducing congestion.

With regards to the dog fouling control order, the Kennel Club does not necessarily oppose the introduction of these orders, as this measure can help by sensibly ensuring that dog owners act responsibly. However, we would encourage Gywnedd Council to adopt more proactive measures which tend to help more when promoting responsible dog ownership throughout local area.

Based on our previous work and funded research on this issue, there are numerous reasons why dog fouling may be occurring in the first place. These include;

- There may be a lack of signs and/or understanding amongst the dog owners in the area regarding the legal requirements which can differ depending on the needs of the land owner or of the type of land;
- Dog bins may not be conveniently located or sighted for dog owners and are therefore undiscovered or disregarded;
- Existing bins may not be regularly emptied and cleaned;
- There may be a small number of persistent offenders.

We have found that other local authorities which have similar problems have typically experienced a reduction in dog fouling by holding an event such as a 'Responsible Dog Day,' where officers can discuss the needs of dog owners in relation to the citing of bins or existing signs which advise the public on where to dispose of dog faeces. Such events can be run for a small incurred cost of £500 – which is often deemed to be cheaper than setting up public display notices, running a public consultation and acquiring signs displaying information about new orders in your council.

I would like to take this opportunity to invite Gywnedd Council to sign up to the Kennel Club's KC Dog campaign. There are no entry requirements, but consulting with KC Dog, or keeping KC Dog up to date with what your Council is doing is a good way to keep in touch with our dog-owning members. For more information visit www.thekennelclub.org.uk/kcdog and to join, email kcdog@thekennelclub.org.uk.

I hope you take these points into consideration and I hope that you find the enclosed briefing of use. Please do not hesitate to contact me if you have any questions.

Yours sincerely,

Denisa Delic
Public Affairs Officer

**ATODIAD 2**

**PRIF GANLYNIADAU YR YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS**

**1. Ymgynghoriad Cyntaf: 17.09.12 – 05.11.12**

1.1 Derbyniwyd cyfanswm o 1,805 o ymatebion i'r ymgynghoriad gyda;

- 1,762 o'r ymatebion ar lein.
- 36 o ymatebion drwy holiadur papur.
- 7 drwy ymateb dros y ffon.

1.2 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (95.1%) yn cwblhau yr holiaduron fel unigolion

1.3 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr, 55.7% yn nodi nad yw baw cŵn yn broblem yn eu hardal. Tra bod 37.7% yn datgan bod baw cŵn yn achosi problemau yn eu hardal.

1.4 Nid yw'r canlyniadau yma yn cyd-fynd gyda yr arolwg amgylchedd Panel Trigolion Gwynedd a gynhaliwyd yn ystod Haf 2012. Yn yr ymgynghoriad hwnnw nodwyd mae baw cŵn ydi'r pryder mwyaf o'r holl broblemau amgylcheddol yng nghymunedau Gwynedd gyda 55% yn nodi bod baw cŵn yn broblem. Roedd 91.6% o ymatebwyr i'r arolwg hwnnw yn cytuno y dylid dirwyo pobl sydd yn gadael i'w cwn faeddu mewn mannau cyhoeddus.

1.5 Roedd 69.8% o'r ymatebwyr yn berchnogion cŵn gyda 27% ddim yn berchnogion cŵn.

1.6 Roedd 533 yn nodi mai ar strydoedd a phalmentydd oedd y problemau gyda 486 yn nodi bod problemau ar lwybrau cyhoeddus.

1.7 Mae cefnogaeth glir, (83.3%) i ddirwyo unrhyw unigolion sydd yn caniatáu i'w cŵn faeddu mewn mannau cyhoeddus. Canran fechan, (7.1%) sydd yn gwrthwynebu'r cynnig yma. Ni dderbyniwyd ymateb gan 9.5%.

1.8 Mae cefnogaeth glir, (84%) i wahardd cwn o fannau chwarae plant. Canran fechan,(8%) sydd yn gwrthwynebu'r cynnig yma. Ni dderbyniwyd ymateb gan 8%.

1.9 Mae cefnogaeth glir i wahardd cŵn o diroedd o fewn ffiniau sefydliadau addysgol gyda 3 o bob 4 yn dangos eu cefnogaeth. Canran gymharol fechan, (13.8%) sydd yn gwrthwynebu'r cynnig yma. Ni dderbyniwyd ymateb gan 11.6%.

1.10 Mae mwyafrif yr ymatebwyr, (57.3%) yn cefnogi gwahardd cŵn o diroedd hamdden tra bod 1 o bob 3, (30.6%) yn gwrthwynebu'r cynnig yma.

1.11 Yn yr ymgynghoriad cyntaf roedd mwyafrif yr ymatebwyr, (56.5%) yn gwrthwynebu'r cynnig i wahardd cŵn o draethau, tra bod 32.1% yn cefnogi'r cynnig.

1.12 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr, (68.4%) yn cefnogi'r cynnig yn ymwneud ar cyfarwyddyd i gadw cŵn ar dennyn tra bod tua i 1 o bob 5 (18.5%) yn gwrthwynebu.

1.13 O ddadansoddi yr ymatebion a dderbyniwyd ar gyfer yr holl gynigion, gellir gweld bod mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi pob cynnig oni bai am y cynnig i wahardd cwn o draethau.

**2. Ymgynghoriad Traethau 26.11.12 – 24.12.12:**

2.1 Derbyniwyd cyfanswm o 318 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gyda:

- 295 o'r ymatebion ar lein.
- 23 o ymatebion drwy holiadur papur.

2.2 Unwaith eto, gwelwyd bod mwyafrif o'r ymatebwyr (93.1%) yn cwblhau yr holiaduron fel unigolion.

2.3 Nododd bron i hanner yr ymatebwyr, (48.4%) eu bod wedi cymeryd rhan yn yr ymgynghoriad cyntaf.

2.4 Nododd 65.1% o'r ymatebwyr eu bod yn berchnogion cŵn, gyda 32.1% yn nodi nad oeddynt yn berchnogion cŵn.

2.5 Mae'r mwyafrif o'r cynigion ar gyfer parthau gwahardd cŵn ar draethau, y cyfan arwhan i traethau Penllech a Borth y Gest wedi eu seilio ar ardaloedd gwahardd sy'n bodoli eisoes.

2.6 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddynt yn cefnogi neu yn gwrthwynebu newidiadau i'r parthau gwahardd cwn ar draethau ble mae gwaharddiadau eisoes yn bodoli. Gwelwyd bod 42.5% yn gefnogol gyda 34.6% yn gwrthwynebu. Roedd bron i chwarter yr ymatebwyr (23%) heb ymateb i'r cwestiwn hwn.

2.7 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr, (55.7%) yn gefnogol i gysoni'r cyfnod gwahardd cŵn o draethau h.y. bod y cyfnod gwahardd rhwng 1 Ebrill a 30 Medi yn flynyddol ar gyfer yr holl draethau dynodedig tra bod 24.8% yn gwrthwynebu. Dylid nodi bod bron i 20% heb ateb y cwestiwn hwn.

2.8 Derbyniwyd ymatebion o Tywyn yn nodi dymuniad nifer fechan i ymestyn cyfnod gweithredu'r parth gwahardd cŵn i fod yn waharddiad parhaol am y flwyddyn gyfan yn hytrach nag am y cyfnod 1 Ebrill I 30 Medi pob blwyddyn.

2.9 Ystyrir bod rhai manteision i ymdrin â Tywyn yn wahanol ac y gallai hyn fod yn cynnig cyfle i ddysgu o opsiwn gweithredu gwahanol.

2.10 O'r 318 ymateb, 33 (10.4%) oedd yn cefnogi sefydlu parth gwahardd cŵn ar draeth Penllech, gyda 101 (31.8%) yn gwrthwynebu. Ni wnaeth 184 (57.8%) gynnig ateb.

2.11 O'r 318 ymateb, 65 (20.4%) oedd yn cefnogi sefydlu parth gwahardd cŵn ar draeth Borth y Gest, gyda 92 (28.9%) yn gwrthwynebu. NI wnaeth 161 (50.6%) gynnig ateb.

2.12 Un o'r rhesymau y cynhaliwyd yr ymgynghoriad estynedig yn benodol i ymdrin â thraethau oedd bod ymatebion cryf wedi eu derbyn mewn perthynas â ardaloedd gwahardd cŵn yn ardal Abersoch. Nodwyd bod gwybodaeth benodol wedi ei dderbyn gan lawer o'r rhai ymatebodd yn negyddol i'r cynigion gwreiddiol eu bod yn fodlon gyda'r cynigion diwygiedig a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad estynedig mewn perthynas ac Ardal Abersoch.

**ATODIAD 3** **Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005**
**Ymgynghoriad Cyhoeddus Gorchmynion Rheoli Cŵn**

**RHESTR TRAETHAU – GWYNEDD** (diwygiedig Chwefror 2013)
Yr holl draethau gan gynnwys glan y môr, y blaendraeth ac unrhyw lethr neu risiau sy'n arwain at y traethau rhwng 1 Ebrill a 30 Medi, fel y disgrifir isod:-

| Map | Traeth | Ardal y Gwaharddiad | Statws |
|---|---|---|---|
| 1 | **Aberdyfi** | Ardal o'r traeth gyferbyn a'r terfyn rhwng y maes parcio a'r Gorsaf Dân, i gyfeiriad y dwyrain am bellter o 195 medr hyd at y llithrfa. | Presennol |
| 2 | **Tywyn** | Gyferbyn a grisiau mynediad at y traeth o derfyn gogleddol Plas Edwards at gyfeiriad y De i bwynt gyferbyn a Ffordd Warwick Place. | Presennol wedi ei diwygio |
| 3 | **Y Friog / Fairbourne** | Ardal y traeth gyferbyn ar Clwb Golff i gyfeiriad y De hyd at y brif 'ramp' traeth ger y mynediad at y Maes Parcio | Presennol |
| 4 | **Abermaw** | Ardal y traeth o bwynt gyferbyn a Ffordd y Traeth i gyfeiriad y De am bellter o 300 medr i gawsai Ynys y Brawd. | Presennol |
| 5 | **Bennar** (Morfa Dyffryn) | Yr arfordir gyferbyn a mynediad at y traeth (h.y. pen y 'boardwalk') i gyfeiriad y de at Afon Ysgethin. | Presennol wedi adleoli |
| 6 | **Llandanwg** | Yr arfordir o'r brif fynedfa ger y maes parcio, i gyfeiriad y De am bellter o 250 medr. | Presennol Existing |
| 7 | **Harlech** | Rhan o'r traeth i'r gogledd o'r fynedfa am bellter oddeutu 500 medr. | Presennol wedi adleoli |
| 8 | **Morfa Bychan** (Black Rock Sands) | Yr arfordir rhwng y Prif Fynedfa a phenrhyn y Graig Ddu. | Presennol wedi adleoli |
| 9 | **Criccieth - Traeth y Promenâd** | Yr arfordir sy'n ymestyn o ymyl dwyreiniol y llithrfa hyd at ben draw'r promenâd ym Morannedd. | Presennol |
| 10 | **Criccieth Gorllewin - Traeth y Marine** | Y traeth o bentir y Castell i gyfeiriad y Gorllewin cyn belled a stepiau'r traeth gyferbyn a Lon Parc. | Presennol wedi adleoli |
| 11 | **Pwllheli - Glan Don** | Yr ardal o'r traeth sy'n ymestyn i'r De o'r fynedfa hyd at y pentir ger geg yr harbwr. | Presennol wedi adleoli |
| 12 | **Pwllheli - Marian-y-De** | Y traeth gyferbyn a'r promenâd i bwynt gyferbyn a chyffordd Rhodfa Marian-y-Mor yn y Gorllewin. | Presennol |
| 13 | **Traeth Abersoch** | Yr arfordir i'r De o'r mynediad gyferbyn ag adeilad 'Abersoch Land and Sea' gan gynnwys y traeth cyfochrog a Lon Pen Cei hyd at y pentir ac ymlaen at y llithrfa gyferbyn a Lon Golff. | Presennol |
| 14 | **Aberdaron** | Yr ardal o'r traeth sydd yn ymestyn i gyfeiriad Gorllewinol o'r fynedfa ger Tŷ Newydd hyd at glan yr Afon Daron. | Diwygiedig |
| 15 | **Porth Oer** | Yr holl fae / draeth | Presennol |
| 16 | **Porth Towyn** | Rhan dde-orllewin y traeth gyferbyn a'r maes carafannau | Presennol |
| 17 | **Morfa Nefyn** | Yr ardal o'r traeth i'r Dwyrain o'r fynedfa (gwaelod Lon Bridin) tuag at y pentir. | Presennol |
| 18 | **Dinas Dinlle** | Yr ardal rhwng y grwynau cerrig (Rock Armour), gyferbyn a'r promenâd ym mhen deheuol y traeth. | Presennol |
| 19 | **Nefyn** | Ardal y traeth i'r Gorllewin o'r fynedfa (gwaelod Lon Gam) tuag at gyfeiriad Porth Nefyn | Presennol |

**Nodyn** - Mae rhai o'r parthau gwahardd presennol yn cynnwys mân addasiadau i'r terfynau